COFNODION CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Iau, Ebrill 26ain, 2018 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Alun Jones (Cadeirydd), Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, William B. Williams

YMDDIHEURIADAU

Gwilym Hughes (Is-gadeirydd), Owi Lloyd-Jones, Andrew T. Weir

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Mrs. Cara Owen, Rheolwr Rheolaeth Datblygu.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant personol i'w ddatgan.

2. **Y DREFN GYNLLUNIO – CARA OWEN, RHEOLWR RHEOLAETH DATBLYGU**

Diolchodd am y gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod arbennig i fynd trwy'r drefn gynllunio. Rhoddodd grynodeb byr o'r hyn a wnâ'r Adran Gynllunio a dangosodd daflen 'Nodiadau Ymweliad Safle' a ddefnyddia'r Swyddogion Cynllunio pan ymwelant â safleoedd pob cais a dderbynnir – gadawodd gopi i bawb, ynghyd â dwy daflen arall. Mae'n fodd o ganolbwyntio a gwneud nodiadau ar addasrwydd y safloedd megis beth sy'n bwysig iddynt, dyluniad, priffyrdd, amharu ar breifatrwydd a golau, effaith llygredd, goredrych (22m yw'r pellter safonol). Anfonir llythyr ac arddangosir rhybudd o bob cais a dderbynnir er gwybodaeth i drigolion lleol.

Pwysleisiodd nad oes angen trafod y polisïau – gwnâ'r Swyddogion Cynllunio hynny. Diolchodd am y rhesymau a nodir gan y Cyngor hwn o ran gwrthwynebu cais, gan fod gwybodaeth leol yn hanfodol bwysig i'w cynorthwyo yn eu penderfyniadau. Buasai rheswm dros gefnogi'n ddefnyddiol hefyd, e.e gofynnir am osod amod cadw modurdy yn fodurdy a'r cytiau glan môr yr un maint.

Eglurodd, o ran carafannau, fod y polisi'n bendant iawn yn y CDLL newydd na chaniateir yr un yn AHNE Llŷn.

Gofynnwyd cwestiynau wrth fynd trwy'r drefn. Diolchwyd i Mrs. Owen am roi o'i hamser i fynychu'r cyfarfod a mynegodd pawb y cawsant fudd ohono.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C18/0274/39/LL	Estyniad unllawr cefn â theras ar y to, estyniad deulawr blaen ac addasiadau i ffenestri gromen – Bro Heli, 28 Tan-y-Gaer, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad a bod gormod o wydr yn y cynllun a fuasai'n creu cynsail i weddill y stád**
C18/0283/39/LL	Dymchwel ac ailgodi tŷ deulawr newydd – Fferm Corn, Cilan **– Gwrthwynebir oherwydd fod y dyluniad yn annerbyniol ac nid yw'n gweddu â thai cyfagos a saif yng nghefn gwlad**

4. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Mai 9fed, 2018 – Cyfarfod Blynyddol